# Cofnodion Cyfarfod 2/1/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Eluned Jones, Huw Symonds, Sion McGuinness, Jacqueline Allen, Ken Edwards, Eric Williams, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Eifion Roberts, Fiona Hopkins, Clare Mackintosh a Rhys Evans.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe ddymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 12/12/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
   i. Tomen y Bala: Adroddwyd fod y clerc wedi cael sgwrs hefo Clwb Rotari'r Bala ynglŷn â'r bwriad i osod meinciau ar y Domen, a bod y Clwb Rotari yn bwriadu anfon lluniau o'r meinciau cyn symud ymlaen hefo'r bwriad. Cytunwyd y byddai'n dderbyniol i osod mainc ar y llwybr neu ar ben y Domen. Cytunwyd hefyd i holi ble mae'r meinciau a arferai fod wedi eu gosod ar lwybr Llyn Tegid.
   ii. Cynllun Celf Canol Trefi: Nodwyd nad oes cyllid yn weddill i ddatblygu cynllun celf arall yn y dref.
   iii. Glanhau Llochesi Bws: Adroddwyd fod trefniant yn ei le i lanhau dau loches bws ychwanegol rhwng Cae Croes a'r Ganolfan Hamdden, a nodwyd fod un panel gwydr angen ei osod ar un lloches.
   iv. Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn nodi eu bod yn gefnogol i amcanion yr adroddiad, ac yn barod i weithredu pan fydd arweiniad ar y mater gan Lywodraeth Cymru.
   v. Aelodaeth ICO: Cadarnhawyd fod y cyngor wedi ail ymaelodi hefo Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd materion i'w hadrodd.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER)  /  /  .....................................(CLERC)

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Nodwyd fod y gweithgareddau wedi eu cwblhau, a bod angen creu adroddiad ariannol ar y gweithgareddau erbyn y cyfarfod nesaf.

**7. Is-bwyllgorau:**

Is Bwyllgor Nadolig: Adroddwyd fod canmoliaeth gyffredinol i'r goleuadau Nadolig dros y tymor, a bod y coed yn edrych yn hardd iawn ar hyd y Stryd Fawr.
Is bwyllgor Tref Gyfeillgar: Dywedodd y Cyng Eluned Jones y byddai'n anfon lluniau ymlaen i amlygu problem y sianeli dwr peryglus ar balmentydd y dref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod y dogfennau cyfreithiol (prydles etc) ar gyfer Canolfan Bro Tegid wedi eu cwblhau, a'r gwaith ar yr adeilad wedi cychwyn.

8. **Materion Cynllunio**: Nid oedd materion cynllunio i'w hystyried.

*9.* **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £12,627.89 yn y cyfri cyfredol, £26,818.74 yn y cyfri cadw a £181.50 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £3,000 wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad y Cae Astro.
- **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog a threth incwm y Clerc, anfoneb y Cyfnod am hysbyseb y gwaith cynnal llochesi bws, anfoneb Archwilio Cymru am archwiliad o gyfrifon 2023/2024 ac anfonebau Bala 700.
- **iii.** Cytunwyd i ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau'r dref yng nghyfarfod mis Mawrth o'r cyngor, ac fe nodwyd y bydd y mudiadau yn ymwybodol o'r cyfle yma yn dilyn cyhoeddi cofnodion y cyngor yn y Cyfnod ac wefan y cyngor.

**10. Gohebiaeth:**

- i) Neuadd Buddug: Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd yn nodi y bydd Neuadd Buddug yn mynd ar y farchnad agored yn gynnar yn y flwyddyn newydd.
- ii) Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: Derbyniwyd llythyr gan y gymdeithas yn mynegi siom fod cyfraniad ariannol y Cyngor Tref am 2024 yn llai na'r arferol. Tynnwyd sylw at y gwaith uwchraddio sydd angen ei wneud ar y Pafiliwn Chwaraeon, ac hefyd at yr holl weithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal gan y gymdeithas yn wythnosol. Fe estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r cyngor i fynychu un o weithgareddau'r gymdeithas, ac fe gytunwyd i gynrychiolwyr o'r cyngor i fynychu Clwb Cinio'r gymdeithas ar Chwefror 6ed.
- iii) Adolygiad o Etholaethau Senedd Cymru: Derbyniwyd copi o ymgynghoriad ar greu etholaeth newydd Gwynedd Maldwyn ar gyfer etholiadau Senedd Cymru. Cytunwyd i ymateb i'r ymgynghoriad ac i fynegi pryder am faint yr etholaeth

arfaethedig ac am y gwahaniaethau diwylliannol sylweddol sydd yna o fewn gwahanol gymunedau o fewn yr etholaeth.

iv) Rhybudd cau rhan o Stryd y Fron dros dro (Ionawr 16-18): Derbyniwyd gwybodaeth y bydd rhan o'r ffordd ar gau dros dro rhwng Maes Treflyn a Maes Awelon er mwyn gwneud gwaith hanfodol gan Openreach.

v) Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi o hysbyseb swydd Swyddog Datblygu Gogledd Cymru gyda Un Llais Cymru.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

Nid oedd materion i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 6 Chwefror 2025.